Mehefin 2009

Prosiect Cyflogaeth yn Mencap

Fe roes Simon Stranks o'r Tîm Ymgyrchoedd yn Mencap gyflwyniad ynglŷn â'r Prosiect Cyflogaeth sy'n amcanu at godi ymwybyddiaeth o rinweddau da pobl sydd ag anableddau dysgu fel gweithiwr - y maent yn tueddu i fod yn weithwyr ffyddlon ac y maent yn colli llai o amser o'r gwaith drwy waeledd. Y prif nod yw cynyddu nifer y bobl sydd ag anableddau dysgu sy'n cael eu cyflogi gan gyrff statudol, a'r nod yw cael 220 o bobl ychwanegol i gyflogaeth erbyn diwedd yr Ymgyrch, fydd yn para am ddwy flynedd.

Y mae pwysau'n cael ei roi ar Gynulliad Cymru i gynyddu nifer y bobl y maent yn eu cyflogi sydd ag anableddau dysgu, ac y maent yn mynd i lunio rhestr o addasiadau rhesymol ar gyfer cyflogi pobl sydd ag anableddau dysgu. Fe allai cwmnïau eraill wedyn ddefnyddio hyn. Fe amlygwyd yr angen am swyddi â thâl ac nid dim ond swyddi gwirfoddol ar gyfer pobl sydd ag anableddau. Fe dynnwyd sylw at y ffaith bod gan yr holl Awdurdodau Lleol gwotâu anabledd ond eu bod yn eu llenwi gyda phobl sydd â chlefyd siwgr, ac yn y blaen.

Fe dynnwyd sylw at y ffaith bod gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw, fel ei gilydd, gynghorwyr cyflogaeth a bod yna Gynghorwyr ar Gyflogaeth i'r Anabl wedi'u lleoli mewn Canolfannau Gwaith.

Plant Anabl yn Cyfri Cymru

Fe wnaeth Zoë Richards o Anabledd Dysgu Cymru roi gwybod bod cynrychiolwyr o'r Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru wedi cyfarfod gyda Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, fel rhan o'r cyfarfod unwaith bob dau fis ar y 1af o Fehefin. Fe roddwyd **diweddariad ar amrywiol gynlluniau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru**, ac y mae hyn yn awr wedi'i rannu.

Fe ychwanegodd Zoë a chyfranogwyr yn y cyfarfod y sylwadau canlynol ar amrywiol faterion.

- **Gweithio allweddol** - Y mae rhywfaint o drafodaeth yn digwydd ynglŷn â chael Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) i roi hawl i bob person anabl ifanc gael gweithiwr allweddol.
- **Chwarae cynhwysol –** Fe wnaeth aelodau amau sut y mae'r arian chwarae'n cael ei wario yn awdurdod lleol pob un, ac a yw'r arian yn mynd i gael ei roi ar gael i bwmpio lleoedd ychwanegol da mewn cynlluniau atgyfeirio.
- **Newid Lleoedd –** Y mae'r uned newid lle symudol wedi'i defnyddio yn 'Winter Wonderland' Abertawe. Fe fydd ffitiadau retro yn cael eu gosod ym Mharc Oakwood, Amgueddfa Sain Ffagan yng Nghaerdydd a Sioe Frenhinol Cymru.

Y mae Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru wedi sicrhau rhai ceisiadau a atebwyd yn gadarnhaol yn nwy flynedd gyntaf yr Ymgyrch. Yr ydym yn awr yn mynd i ganolbwyntio ar sicrhau cyllid ar gyfer plant anabl oâr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant nesaf yn 2011 i 2014.

Y maeâr Ymgyrch wedi clywed oddi wrth Sefydliad Bevan i weld a fyddem yn ei ganfod yn ddefnyddiol iddynt ymgymryd â phrosiect ymchwil annibynnol ar wasanaethau ar gyfer plant anabl.

Trafodaeth ynglŷn â'r Mesur Addysg Arfaethedig (Cymru)

Y mae Mesur yn fath newydd o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac fe all wneud darpariaethau yng Nghymru mewn ffordd gyffelyb i Ddeddf Seneddol. Diben y Mesur neilltuol hwn yw ymestyn hawl plant drwy ddarparu hawliau iddynt wneud apeliadau a cheisiadau addysgol arbennig o ran gwahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru. Fe fydd yn diwygioâr ddeddf syân rhoiâr hawl i rieni wneud apeliadau a cheisiadau iâr Tribiwnlys.

Y mae yna ymgynghoriad wediâ agor ynglŷn ââr Mesur uchod. Fe wnaeth Cath Lewis ddosbarthu copi oâr ymateb y mae hi wediâ gwblhau ar ran Plant yng Nghymru. Y maeâr ymateb ar gael iâw lawrlwytho oddi ar adran Aelodau y wefan hon.

Cyfathrebu gyda Phlant Anabl

Y mae Gabrielle Eisele yn gweithio dros Tros Gynnal fel eiriolwr ar ran plant anabl, ac y mae hi hefyd yn hyfforddwr annibynnol i *Triangle*, mudiad annibynnol syân gweithioân uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd, ac y mae hi hefyd yn gwneud llawer o hyfforddiant ynglŷn â sut i gyfathrebu gyda phlant anabl. Fe dynnodd hi sylw at y ffaith y gall bob plentyn anabl gyfathrebu, ni waeth pa mor ddybryd ywâu hanabledd, ond yr oedd yn derbyn nad ywâr farn hon yn cael ei rhannu gan bawb. Fe ychwanegodd Gabrielle ei bod hiân anodd iawn, os yw person yn credu na all plentyn anabl gyfathrebu, newid y farn honno. Yn ystod ei sgwrs, fe amlygodd Gabrielle amryw o adnoddau a syniadau y gellir eu defnyddio i gyfathrebu gyda phlant anabl ac i ganfod eu dymuniadau âu teimladau. Fe dynnodd hi sylw at y ffaith y gall pawb, beth bynnag ywâu hanabledd, ddynodi âeân neu ânaâ Fe ddywed rhai pobl maiâr prif rwystr rhag cyfathrebu gyda phlant anabl yw amser. Fe ellir gweld yr esgus hwn fel gwahaniaethu yn erbyn plant anabl.

Rhwydweithio

Fe wnaeth y sawl a fynychodd gwblhau **Taflen Cyfnewid Gwybodaeth** a ofynnodd iddynt rannu âBeth oeddynt yn ei wneud ar hyn o bryd?â a âBeth mae arnoch angen?â gyda manylion cysylltu. Fe fydd hyn yn cynorthwyo aelodau i barhau i rwydweithio ac i gefnogiâr naill aâr llall ar ôl y cyfarfod.